# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Mawrth, 10 Gorffennaf 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, S.A. Curry, I.W. Davies, J.A. Davies, W.T. Evans, J.K. Howell, J.D. James, C. Jones, D. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis, K. Lloyd, K. Madge, B.D.J. Phillips, G.B. Thomas and J.E. Williams

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd C.A. Davies a fu'n annerch y Pwyllgor mewn perthynas â chais cynllunio W/37328

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
K. Byrne, Cyfreithiwr Cynorthwyol
J. Edwards, Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig
K. James, Peiriannydd Cynorthwyol (Cydgysylltu Cynllunio)
G. Noakes, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y Dwyrain)
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 - 11.10 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Penny Edwards a Jeannette Gilasbey.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 3. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**3.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **W/36571** | **Datblygiad preswyl (4 preswylfa) ar dir ger Heol Capel Ifan, Caerfyrddin, SA31 1HJ**<br><br>Roedd sylwadau wedi dod i law a oedd yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig, gan ailbwysleisio rhai o'r pwyntiau a nodwyd yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio, gan gynnwys y rhai canlynol:-<br>• Pryder ynghylch colli trefniadau parcio ar y stryd, er anfantais i'r preswylwyr presennol, y mae gan rai ohonynt anhwylderau meddyliol a chorfforol;<br>• Ni chredwyd bod parcio ar y strydoedd cyfagos yn ddewis hyfyw o ystyried yr anhwylderau y cyfeirir atynt uchod, yn ogystal â'r ffaith eu bod eisoes yn llawn ceir.<br>• Credwyd y gallai traffig y gwaith adeiladu gael effaith ar lif y traffig ar hyd Heol Capel Ifan, er anfantais i ddefnyddwyr y ffordd a'u diogelwch<br>• Gallai'r cynnydd mewn traffig oherwydd y datblygiad gael effaith niweidiol ar ddefnyddwyr presennol y ffordd a cherddwyr, yn enwedig gan fod bysiau a phlant sy'n cerdded i'r ysgol yn defnyddio'r ffordd.<br>• Mae'r diffyg lleoedd parcio ar hyd Heol Capel Ifan wastad wedi bod yn broblem i'r preswylwyr nad yw'r Cyngor wedi mynd i'r afael â hi.<br><br>Ymatebodd y Peiriannydd Cynorthwyol (Cydgysylltu Cynllunio) ac asiant yr ymgeisydd i'r materion a godwyd. |
| **W/37278** | **Cadw a chwblhau lolfa haul/orendy i gynnwys heulfan newydd yn Church House Farm, Heol Penycoed, Llan-gain, Caerfyrddin, SA33 4EB** |

**3.2 PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar eu cyfeirio at CADW i'w hystyried ac nad yw'r cofnod penderfyniadau yn cael ei gyhoeddi nes bod sylwadau CADW wedi dod i law:**

| | |
|---|---|
| **W/37289** | **Newid defnydd o lys sui generis i swyddfeydd, gan osod arwyddion allanol a man cymorth cyhoeddus yn 8 Heol y Neuadd, Caerfyrddin, SA31 1PH** |
| **W/37326** | **Newid defnydd o lys sui generis i swyddfeydd, gan osod arwyddion allanol a man cymorth cyhoeddus yn 8 Heol y Neuadd, Caerfyrddin, SA31 1PH** |

**3.3 PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle:-**

| | |
|---|---|
| **W/37328** | **Cais cynllunio ôl-weithredol am fan gwerthu peiriannau amaethyddol gan gynnwys gwaith tir cysylltiedig, sied storio a thirweddu, Tan y Bryn, Nantgaredig, Caerfyrddin, SA32 7LH**<br><br>**RHESWM:** galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y safle a'r ardal gyfagos mewn perthynas â'i leoliad yn Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn Tywi.<br><br>Cafwyd sylw a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle i gael golwg ar ei leoliad a'i welededd o'r briffordd. |

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**